# Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi – Youth Custody Service

## PWRPAS DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH BERSONOL

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r safonau y gallwch eu disgwyl gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth bersonol neu'n cadw gwybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch chi; sut y gallwch gael gafael ar gopi o'ch data personol; a beth y gallwch ei wneud os ydych chi'n credu nad yw'r safonau'n cael eu bodloni.

Nid yw'r ffordd rydym yn delio â'ch gwybodaeth bersonol wedi newid; yr hyn sydd yma yw diweddariad i'r hysbysiad blaenorol er mwyn ei gwneud hi'n haws i chi ei ddeall.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw rheolydd data'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol i helpu i hwyluso dedfrydau a roddir gan y llys, yn y ddalfa ac yn y gymuned, ac i adsefydlu pobl yn ein gofal drwy addysg a chyflogaeth.

## Y mathau o ddata personol rydym yn ei brosesu

Dim ond er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau i chi y byddwn ni'n prosesu data personol. Gall y data hwn gynnwys; cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost, rhifau yswiriant gwladol, cenedligrwydd ac ethnigrwydd, gwybodaeth ariannol, cyfeiriadedd rhywiol, gwybodaeth am droseddau neu droseddau honedig, manylion perthynas agosaf.

## Pam rydym yn casglu gwybodaeth a pha sail gyfreithlon sydd gennym i wneud hynny?

Defnyddir y data a gasglwn i helpu i hwyluso dedfrydau a roddir gan y llysoedd, i adsefydlu pobl yn ein gofal, i redeg y sefydliad yn ddiogel, ac i atal neu ganfod trosedd dan Ddeddf Carchardai 1952 a rheolau perthnasol a wnaed dan y Ddeddf honno (Rheolau'r Carchar 1999, Rheolau Sefydliad Troseddwyr Ifanc 2000), Deddf Rheoli Troseddwyr 2007, a Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

## Gyda phwy y gellir rhannu'r wybodaeth

Weithiau, mae angen i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi gael ei rhannu gyda chi a sefydliadau eraill. Byddwn bob amser yn rhannu data personol mewn ffordd gyfreithlon. Dyma'r sefydliadau y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Swyddfa Gartref

- Yr Asiantaeth Ffiniau
- Yr Heddlu
- Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC)
- Awdurdodau Lleol
- sefydliadau yn y sector preifat a gwirfoddol sy’n ein helpu i ddarparu addysg a gwasanaethau adsefydlu, ac sy’n darparu pethau fel papurau newydd ac eitemau personol.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y bydd data personol yn cael ei rannu y tu allan i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Rhannu data personol â gwlad arall

Weithiau, mae’n rhaid i’ch gwybodaeth bersonol gael ei throsglwyddo dramor. Er enghraifft, pan fydd plentyn neu berson ifanc mewn dalfa yn cael ei drosglwyddo i wlad arall i gwblhau ei ddedfryd, neu pan fydd rhywun yn dychwelyd adref ar ôl cwblhau ei ddedfryd. Gellir rhannu gwybodaeth â rhai llysgenadaethau tramor pan fo cytundeb mynediad yn bodoli. Bydd unrhyw drosglwyddiadau a wneir yn cydymffurfio'n llwyr â phob agwedd ar y gyfraith diogelu data.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir

Gall y cyfnod y byddwn yn cadw eich gwybodaeth newid yn dibynnu ar hyd y ddedfryd (os yw’n berthnasol), y math o wybodaeth a gedwir, a’r angen busnes am y wybodaeth honno. Mae'r rheolau ar gyfer cadw gwybodaeth yn cael eu nodi yn y polisi Archifo, Cadw a Gwaredu. I gael rhagor o gyngor am hyn neu i gael copi o’r polisi, cysylltwch â’r cynrychiolydd Mynediad at Wybodaeth yn eich sefydliad.

## Mynediad at eich gwybodaeth bersonol

Gallwch gael gwybod a oes gennym unrhyw ddata personol amdanoch chi drwy wneud ‘cais am fynediad at ddata gan y testun’. Os ydych yn dymuno gwneud hyn, cysylltwch â’r:

Cynrychiolydd Mynediad at Wybodaeth yn eich sefydliad.

## Pan fyddwn yn gofyn i chi am eich data personol

Rydym yn addo dweud wrthych pam ein bod angen eich data personol a dim ond gofyn am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom;

- Gallwch drafod gyda Swyddog yr Uned os oes gennych unrhyw gwestiynau am y data a gasglwyd;
- Bydd eich data’n cael ei ddiogelu, ac ni fydd neb heb awdurdod yn gallu ei weld;
- Byddwn yn gwneud yn siŵr nad ydym yn cadw eich gwybodaeth am fwy o amser na’r hyn sy’n angenrheidiol;
- Ni fyddwn yn gwerthu eich data personol;

- Byddwn yn ystyried eich ceisiadau i newid neu ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, ac os yw'r gyfraith yn mynnu ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio rhannau ohoni;
- Efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth gyswllt i ofyn i chi a hoffech lenwi arolwg gwasanaeth i gwsmeriaid. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld sut y gallem, o bosibl, wella ein gwasanaethau.

## Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch y canlynol:

- Cytundebau sydd gennym â sefydliadau eraill o ran rhannu gwybodaeth;
- Sut rydym yn cynhyrchu adroddiadau ac ystadegau gyda gwybodaeth bersonol wedi'i dileu;
- Ein cyfarwyddiadau i aelodau staff ynghylch sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym ni'n gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol;
- Sut i wneud cwyn.

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod, siaradwch â'ch cynrychiolydd mynediad at wybodaeth lleol.

## Cwynion

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith. Os ydych chi'n credu bod eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei thrin yn anghywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane,
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ar ran Swyddog Diogelu Data y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ